Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD GWENER, 23AIN IONAWR, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**


Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd Dydd Iau, 15 Ionawr 2026)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

**Aelodau Cyngor**

| | |
|---|---|
| Cyng. Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. Mark Pritchard | Cyngor Wrecsam |
| Cyng. Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |

**Aelod Eryri**

| | |
|---|---|
| Cyng. Edgar Wyn Owen | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol**

| | |
|---|---|
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |
| Alwyn Jones | Cyngor Wrecsam |
| Jonathan Cawley | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

**Swyddogion Statudol**

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor |
| Dewi Aeron Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Iwan G Evans | Swyddog Monitro |

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 16

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 7 Tachwedd, 2025 a 28 Tachwedd, 2025 fel rhai cywir.

**5. CYLLIDEB 2026/27, ARDOLL AR AWDURDODAU CYFANSODDOL A CHYFRANIADAU PARTNERIAID** 17 - 26

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

**6. SEFYLLFA REFENIW A CHYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2025.** 27 - 39

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

**7. IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL – CYLCH GORCHWYL A HUNANASESIAD** 40 - 48

Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol i gyflwyno'r adroddiad.

**8. DIWEDDARIAD Y GRONFA TRAFNIDIAETH RANBARTHOL** 49 - 51

Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

**9. CYFLWYNO CYTUNDEB CYFLAWNI'R CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL YN FFURFIOL** 52 - 56

Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol i gyflwyno'r adroddiad.

**10. CRONFA PARTNERIAETH ARLOESI GOGLEDD CYMRU - BWRDD ARLOESI GOGLEDD CYMRU** 57 - 61

Alwen Williams, Prif Weithredwr ac Iain Taylor, AMION Consulting i gyflwyno’r adroddiad.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**07/11/25**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol:** Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Iwan Evans (Swyddog Monitro – Cyngor Gwynedd), Dewi Aeron Morgan (Swyddog Cyllid Statudol y CBC), Sara Jane Jones (Swyddog Uwch Gyfrifydd – Cyngor Gwynedd), Nia Medi Williams (Rheolwr Gweithrediadau ac Adnoddau – Uchelgais Gogledd Cymru), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau Uchelgais Gogledd Cymru), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro CBC), Iain Taylor (AMION Consulting), David Hole (Arweinydd Rhaglen Weithredu'r CBC), Angharad Williams (Swyddog Cefnogi Rhaglen – Uchelgais Gogledd Cymru), Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf – Uchelgais Gogledd Cymru), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo – Uchelgais Gogledd Cymru), Meghan Davies (Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net – Uchelgais Gogledd Cymru), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol – Uchelgais Gogledd Cymru), Andy Roberts (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r CBC – Uchelgais Gogledd Cymru), Adam Graham (Uwch Swyddog Trafnidiaeth – Uchelgais Gogledd Cymru), Allan Pitt (ARUP), Gareth Ashman (Llywodraeth y DU), Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd).

**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cyng. Jason McLellan yn Is-gadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer 2025/26

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC) a Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyngor Gwynedd).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Bu i Cyng Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint) ar gyfer Eitem 5 oherwydd materion personol. Nid oedd yr aelod o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**5. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro ac Iain Taylor o AMION Consulting.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyniwyd yr Adroddiad Diweddaru a nodwyd gwaith a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a thîm y Parth Buddsoddi, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.**

**Cymeradwywyd Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) drafft rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gan ddirprwyo'r hawl i gytuno a chwblhau'r fersiwn terfynol i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, yr Is-gadeirydd ac Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, fel cynrychiolwyr penodedig y Bwrdd Ymgynghorol Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.**

**Cymeradwywyd Rhestr Prosiectau, gweithgareddau a cherrig milltir Blwyddyn 1 a 2 sydd wedi'u drafftio i gefnogi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol.**

**Cymeradwywyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft, gan ddirprwyo'r hawl i gytuno a chwblhau'r fersiwn terfynol i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, yr Is-gadeirydd ac Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, fel cynrychiolwyr penodedig y Bwrdd Ymgynghorol Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.**

**TRAFODAETH**

Diolchwyd i'r Aelodau am eu hamser a'u hystyriaeth o'r adroddiad.

Adroddwyd bod datblygiad y rhaglen bellach ar bwynt allweddol ac wedi cyrraedd y cam cymeradwyo gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r Broses Pum Porth wedi dod i ben ac mae cytundeb i'r Porth (*Gateways*) wedi'i dderbyn. Eglurwyd bod angen cymeradwyaeth y CBC i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r cytundeb rhyng-awdurdod rhwng y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC), Cyngor Sir y Fflint, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ymhelaethwyd mai'r rhain fydd yn llywodraethu ar drosglwyddo arian refeniw a gweithgareddau allweddol yn y rhaglen.

Eglurwyd bod cynlluniau cyflawni blynyddol yn cael eu cytuno bob blwyddyn i gefnogi'r ffordd y mae Parthau Buddsoddi yn cael eu strwythuro a'u cyflawni. Cyflwynir drafft y Cynllun Cyflawni Blynyddol yng nghyfarfod Grŵp Gwaith Parth Buddsoddi, lle mae arweiniwyr Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyfarfod ac yn adolygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol. Nodwyd mai'r bwriad yw cynnal cyfarfod o'r Grŵp Gwaith Parth Buddsoddi ar 28 Tachwedd, i drafod gweithgareddau cychwynnol y rhaglen. Manylwyd y byddent yn cynnal cyfarfod arall i drafod Cynllun Cyflawni'r ail flwyddyn.

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, gan dynnu sylw arbennig at rai o bwyntiau allweddol Rhaglen y Parth Buddsoddi a oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Nodwyd bod y rhain wedi'u rhannu'n gefnogaeth fusnes, sgiliau, arloesedd, seilwaith, a safleoedd treth. Hysbyswyd yr Aelodau fod y safleoedd treth wedi'u cyhoeddi ar Legislation.gov, a'u bod yn dod i rym cyfreithiol ar 21 Tachwedd.

Hysbyswyd yr aelodau, pe bai'r CBC yn cymeradwyo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r IAA, y byddai'r Llywodraeth yn gweithredu i gyhoeddi fersiynau wedi'u llofnodi o'r ddogfen ymhen yr wythnos.

Tynnwyd sylw'r aelodau at y Cynllun Cyflawni, gan amlygu gwaith cynnar. Atgoffwyd yr aelodau ei fod yn brosiect Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar y cyd gyda Phrifysgol Wrecsam a Choleg Cambria. Nodwyd bod yr arian i weinyddu grantiau busnes yn cael ei ddirprwyo i Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cydnabuwyd bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud o ran Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol i Gymru, gyda'r bwriad o'i ddwyn i Ogledd-ddwyrain Cymru, yn ogystal â datblygiadau mewn rhaglenni datgarboneiddio gyda diwydiant a phrosiect trawsnewid a gefnogir gan AMRC. Ymhelaethwyd bod cynnydd da yn cael ei wneud gyda'r gofynion seilwaith i'r safleoedd treth, gydag eiddo eisoes yn cael eu hadeiladu yng Nglannau Dyfrdwy a phrosiectau'n cael eu hyrwyddo i'w hystyried ar gyfer cynllunio yn Wrecsam. Bydd manylion pellach yn cael eu cyflwyno i arweinwyr Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam ddiwedd mis Tachwedd, gyda'r eitem yn cael ei gyflwyno eto i'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd.

Eglurwyd mai dyma'r cam diwethaf o benderfyniadau gan y CBC o ran adeiladu'r Parth Twf, gan esbonio eu bod yn gytundebau sy'n ymrwymo'r CBC i rôl corff atebol. Fel corff atebol, mae'r CBC yn eistedd rhwng y Llywodraethau ac felly mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n cael eu harwyddo rhwng y CBC a'r Llywodraeth yn ymrwymiad egwyddorol i sut fydd y prosiect yn cael ei redeg. Bydd llythyrau ariannu, sef dogfennau cytundebol ac amodau ariannu, gan y Llywodraethau yn cael eu hanfon wedyn.

Nodwyd bod yr IAA yn gytundeb cyd-weithio rhwng y Cynghorau a'r CBC, ac yn cynnwys sut mae'r Parth Buddsoddi yn cael ei redeg, y llywodraethant, y trefniadau ariannu refeniw, a'r trefniadau ar gyfer cydymffurfio ag amodau fydd y Llywodraeth yn osod ar y CBC. Ymhelaethwyd ei bod yn ddogfen sy'n adeiladu ar y penderfyniadau sydd wedi eu cymryd yn y misoedd diwethaf yn y *gateways* er mwyn creu'r Parth Buddsoddi. Yn bellach, eglurwyd bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi ei ail gyflwyno i'r CBC ac er nad ymddengys bod llawer o newidiadau ers mis Gorffennaf, mae'n cyfeirio at reolaeth Rheoli a Threthi Anomestig fydd angen ei gyfarch yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Tynnwyd sylw bod drafft o'r IAA ger bron yr Aelodau. Ymddiheuriwyd fod y ddogfen ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd. Eglurwyd mai fersiwn gychwynol o'r ddogfen sy'n bodoli ar hyn o bryd er mwyn ymestyn trafodaeth, ac i sicrhau fod y prosiect yn symud yn ei flaen maent yn gofyn am hawliau dirpwyedig i gwblhau'r dogfennau ar y cyd efo Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Nodwyd eu bod wedi derbyn adborth cadarnhaol gan Swyddogion Monitro o Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Pwysleisiwyd bod yr hawl i symud ymlaen efo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r IAA yn hanfodol, er mwyn tynnu dogfennau at ei gilydd a rhoi sylfaen ar gyfer y gwaith sylweddol o gyflwyno'r Parth Buddsoddi.

Talwyd diolchiadau gan y Cadeirydd i'r ymgynghorydd o AMION Consulting, i dîm cyfreithiol Cyngor Gwynedd, ac i Brif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Sir y Fflint am eu partneriaeth yn y prosiect. Mynegwyd bod hwn yn gyfle gwych i Sir y Fflint a Wrecsam gyflawni ar gyfer busnesau yng Ngogledd Cymru. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd y prosiect, yn enwedig y budd yn sgil cynnydd mewn swyddi o ansawdd uchel yn ei ddwyn i economïau rhanbarthol ehangach.

## 6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir Gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Adran 100A(2) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r adroddiad yn ymwneud a gwybodaeth ariannol mewn perthynas â'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, sydd wedi'i dynodi'n wybodaeth gyfrinachol gan Lywodraeth Cymru ar ddibenion Adran 100 (A)(2) Deddf

Llywodraeth Leol 1972. Gan hynny mae'n ofynnol eithrio'r adroddiad rhag ei chyhoeddi gan y byddai yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

## 7. RHAGLEN BLWYDDYN 1 Y GRONFA TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth.

**PENDERFYNWYD:**

**Cymeradwywyd Rhaglen Gynlluniau ddrafft i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 12:00 a daeth i ben am 12:30.

__________________________________

(Cadeirydd)

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD DYDD GWENER, 28 TACHWEDD 2025

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Menna Trenholme (Cyngor Gwynedd), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol:** Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyngor Gwynedd), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi - Cyngor Gwynedd), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Cyngor Gwynedd), Sara Jane Jones (Swyddog Uwch Gyfrifydd – Cyngor Gwynedd), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro CBC), Iain Taylor (AMION Consulting), Adam Graham (Uwch Swyddog Trafnidiaeth – Uchelgais Gogledd Cymru), Matthew Edwards (Archwilio Cymru), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) a Dewi Aeron Morgan (Swyddog Cyllid Statudol y CBC).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MEDI 2025**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2025 fel rhai cywir.

**5. DATGANIAD O GYFRIFON Y BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU AM 2024/25 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

**PENDERFYNWYD:**

**Ystyriwyd a chymeradwywyd adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru ar gyfer y**

**BUEGC.**

**Ystyriwyd a chymeradwywyd Datganiad o Gyfrifon terfynol y BUEGC (ôl archwiliad) ar gyfer 2024/25).**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd cyfrifon terfynol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer 2024/25, ynghyd ag adroddiad yr archwiliwr allanol, sef yr adroddiad ISA260. Eglurwyd bod swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi trosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) ers 1 Ebrill 2025, a hwn yw'r datganiad cyfrifon olaf, a bydd yn cael ei gynnwys fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon y Cydbwyllgor Corfforedig o 2025/26 ymlaen.

Sicrhawyd bod y Datganiad Cyfrifon blynyddol wedi eu paratoi yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.  Amlygwyd fod yr aelodau wedi derbyn y wybodaeth ddwy waith yn barod. .

Esboniwyd bod datganiadau wedi cael eu hadolygu erbyn hyn gan Archwilio Cymru, sef yr archwilwyr allanol.  Amlygwyd bod yr archwiliwr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddent wedi derbyn Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 4 o adroddiad yr archwilwyr.

Tynnwyd sylw at un camgymeriad na gafodd ei gywiro oherwydd nad oedd modd dyrannu anfoneb gan un cyflenwr i wariant 2024/25 a 2025/26, ond nid oedd yn cael effaith materol ar y cyfrifon. Eglurwyd bod dudalennau 86 ac 87 yn dangos crynodeb o'r cywiriadau a wnaethpwyd. Ymhelaethwyd fod y  cywiriad cyntaf yn deillio o rediad taliadau a wnaethpwyd ar 31 Mawrth; roedd wedi ei ddangos fel "credydwyr" ac arian yn y banc gan nad oedd yr arian wedi mynd allan o'r cyfrif ond roedd yr archwilwyr o'r farn dylid ei gynnwys fel "cash in transit" gan nad oedd ymrwymiad presennol o ran y ddyled ar ddiwedd 31 Mawrth. Cydnabuwyd bod hyn yn fater technegol ac nid oedd yn effeithio ar farn yr archwiliad. Roedd yr ail gyfeiriad yn ymwneud â'r wybodaeth yn Nodyn 24, ac nid oedd yn cael effaith ar y ffigyrau yn y cyfrifon ei hun.

Nodwyd bod  cynllun y flwyddyn wedi ei gyflwyno i'r Cyd-Bwyllogr yn ôl ym mis Medi. Cyflwynwyd canlyniad yr archwiliad, a nodwyd ei fod yn bositif ac yn cloi'r hen Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Cyfeirwyd at risg annibyniaeth y tîm Archwilio oherwydd perthynas Rheolwr Archwilio ag aelod o'r grŵp gweithredol. Cydnabuwyd bod Archwilio Cymru yn fodlon a'r trefniadau i osgoi risg.

Diolchwyd i'r tîm yn Archwilio Cymru am eu gwaith ar yr archwiliad ac i'r tîm yn Adran Gyllid Cyngor Gwynedd am eu gwaith yn paratoi'r Datganiad o Gyfrifon.

Gofynnwyd i'r Cadeirydd, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig), arwyddo'n electronig y Cyfrifon a'r Llythyr Sylwadau (Atodiad 4 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru) wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod cyn eu hanfon at Archwilio Cymru.

**6. FFURFLEN FLYNYDDOL CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU 2024/25**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

**PENDERFYNWYD:**

**Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol ddiwygiedig y CBC ar gyfer 2024/25 (ar ôl archwiliad allanol). Mae wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan Swyddog Cyllid Statudol y CBC (Atodiad 1).**

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod Ffurflen Flynyddol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig 2024/25 ger bron yr Aelodau, yn dilyn archwiliad gan Archwilio Cymru. Amlygwyd bod y Ffurflen yma wedi cael eu cyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar ffurf drafft ynghyd ag adroddiad alldro ar 13eg o Fehefin.

Nodwyd bod yn yr un modd â chyfrifon y Bwrdd Uchelgais Economaidd, fod newid i'r Ffurflen oherwydd y rhediad taliadau, gwerth £13 mil a redwyd ar 31 Mawrth. Eglurwyd bod y swm yma wedi ei ddangos fel "credydwyr" ac arian yn y banc gan nad oedd yr arian wedi mynd allan o'r cyfrif ond roedd yr archwilwyr eto o'r farn dylid ei gynnwys fel "cash in transit" gan nad oedd ymrwymiad presennol o ran y ddyled ar ddiwedd 31 Mawrth.

Gofynnwyd i'r Cadeirydd arwyddo'r ffurflen cyn iddi gael ei hanfon i Archwilio Cymru, a gofynnwyd i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig gymeradwyo Ffurflen Flynyddol ddiwygiedig y CBC ar gyfer 2024/25 (ar ôl archwiliad allanol). Nodwyd ei fod wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan Swyddog Cyllid Statudol y CBC

Diolchwyd am y diweddariad.
.

**7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26 - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNWYD:**

**Nodwyd a derbyniwyd yr adroddiad er gwybodaeth.**

**TRAFODAETH**

Amlygwyd fod yr aelodau wedi cymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig am y cyfnod 2025/26 yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2025. Eglurwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig gael diweddariad ar y sefyllfa yn rheolaidd, ac mae'r diweddariad yma yn edrych ar y cyfnod hyd at 30 o Fedi 2025.

Nodwyd ei bod wedi bod yn gyfnod prysur yn y marchnadoedd ariannol. Tynnwyd sylw at adran 6, lle adroddwyd buddsoddiadau arian ar ran y Cyd-Bwyllgor gan gynnwys:

- banciau a chymdeithasau adeiladau
- awdurdodau lleol
- cronfeydd marchnad arian
- swyddfa rheoli dyledion

Pwysleisiwyd ei bod yn ofynnol i fuddsoddi arian Cyd-Bwyllgor Corfforedig fod yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion uchaf. Manylwyd bod yr amcan wrth fuddsoddi arian yw'r taro cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan sicrhau bod hylifedd ar gael i dalu am

weithrediadau dydd i ddydd y Cyd-Bwyllgor. Nodwyd bod y dychweliadau dros y cyfnod wedi bod yn dderbyniol rhwng 3.4% a 4.1%.

Adroddwyd bod gan y Cyd-Bwyllgor gyfyngiadau buddsoddi ac mae hyn er mwyn lledaenu'r risg dros wahanol sefydliadau. Cadarnhawyd y cydymffurfiwyd yn llawn gyda'r cyfyngiadau.

Nodwyd bod swyddogion yn mynychu hyfforddiant parhaus gyda Arlingclose, sef ymgynghorwyr ariannol, er mwyn deall amodau'r farchnad.

## 8. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN TRAWSNEWID A GWELLA 2025-26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr a Dave Hole, Arweinydd Rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

**Nodwyd diweddariad cynnydd a'r heriau cyfredol o ran trawsnewidiad a gwelliant parhaus y CBC yn ystod 2025/26.**

**Cyfarwyddwyd bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2026 i roi diweddariad ar gyflawni rhaglen 2025/26, gan gynnwys y rhaglen arfaethedig newydd ar gyfer 2026/27.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd y Rhaglen Trawsnewid a Gwella 2025/26. Nodwyd mai pwrpas yr adroddiad yw diweddaru Aelodau'r CBC ar gynnydd cyfredol, heriau, a'r camau nesaf ar gyfer trawsnewid a gwella parhaus y CBC.

Darparwyd cyd-destun ac atgoffwyd yr Aelodau fod y CBC bellach yn gweithredu fel endid corfforaethol sefydledig gyda'r awdurdod i gyflogi staff a galluogi trefniadau llywodraethu cadarn. Atgoffwyd yr Aelodau fod y Cynllun Twf, ei chyllid, a'i gweithwyr wedi'u trosglwyddo i'r CBC a'r brand Uchelgais Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2025, gyda lansiad rhaglen ddiwygiedig ac uchelgeisiol ar gyfer 2025/26 sy'n adeiladu ar gynllun gweithredu'r CBC ac yn cyflawni rhaglen o welliant parhaus. Ymhellach, nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi cael ei phenodi ym mis Mehefin 2025, ac yn gweithredu fel yr uwch berchennog cyfrifol ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid a Gwella.

Amlygwyd bod y rhaglen yn uchelgeisiol a rhestrwyd yr heriau allweddol, gan gynnwys y gallu i recriwtio a chadw staff medrus, cwblhau'r cytundebau lefel gwasanaeth sydd ar y gweill ar hyn o bryd gyda Chyngor Gwynedd, rheoli capasiti adnoddau ochr yn ochr â gweithrediad busnes arferol, a gweithredu o fewn y cyfyngiadau cyllidebol a neilltuwyd.

Rhestrwyd ymhellach ffactorau allanol sydd wedi effeithio ar gynnydd, gan gynnwys oedi wrth lansio prosbectws Llywodraeth Cymru, a dyraniadau grantiau. Mynegwyd fod prosiectau fel gweithredu rheolaeth pwyllgorau a gwe-darlledu wedi cael eu gohirio oherwydd y dibyniaethau hyn, ond bydd y rhain yn parhau i gael eu datrys yn y misoedd nesaf.

Nodwyd bod datblygiad rhaglen newid newydd sy'n edrych ymlaen ar y gweill, a bydd 'roadmap' ar gyfer y blynyddoedd dilynol yn parhau i ddatblygu. Bydd y blaenoriaethau allweddol yn dangos newid o fewn y rhaglen, ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn adran 5.6 o'r adroddiad.

Ymhelaethwyd fod y rhaglen yn cael ei chefnogi gan adnoddau mewnol ac allanol, o ran ystyriaethau ariannol a llywodraethu. Nodwyd mai cyllidebau a chyllid grant wedi'u nodi, ond wrth i anghenion sefydliadol esblygu efallai y bydd potensial i ofyn am gyllid ychwanegol. Cadarnhawyd bod ymatebion swyddogion statudol yn cadarnhau cywirdeb y wybodaeth ac yn tynnu sylw at yr her barhaus o gydbwyso capasiti â gofynion trawsnewid.

Hysbyswyd yr Aelodau, er mwyn sicrhau llywodraethu da ac atebolrwydd corfforaethol, fod yn rhaid i'r CBC dderbyn diweddariadau rheolaidd ar weithgareddau trawsnewid a gwella.

Nodwyd pryderon ynghylch cadw a recriwtio staff, ac fe'i hamlygwyd fel problem bosib ar gyfer y dyfodol. Ymhelaethwyd bod adnoddau'n brin yng Ngogledd Cymru, yn enwedig mewn meysydd arbenigedd fel caffael a pholisi, ac mae'n hanfodol peidio â chymryd adnoddau gan awdurdodau lleol. Cadarnhawyd bod y Prif Weithredwr yn bwriadau tynnu sylw at heriau recriwtio yn yr adroddiad ar gyfer mis Mawrth 2026.

Mynegwyd pryder bod recriwtio yn her sy'n wynebu'r holl awdurdodau lleol. Adroddwyd bod y Prif Weithredwr mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru i amlygu unigolion sydd â sgiliau perthnasol i weithio gyda'r CBC ar secondiad. Ymhellach, nodwyd bod angen i'r CBC fod mor hyblyg â phosib gyda'u recriwtio er mwyn sicrhau adnoddau cywir.

Holwyd o ran tanwariant os oes cynlluniau yn y Gogledd Orllewin i'w gweithredu, cytunwyd y bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfod a'r aelod i esbonio'r cynlluniau ymhellach.

Talwyd diolchiadau am y diweddariad

## 9. ADRODDIAD CHWARTEROL YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth.

**PENDERFYNWYD:**

**Nodwyd yr adroddiad a'i atodiad.**

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod yr Adroddiad Chwarterol wedi cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn y cyfarfod ar 6 Hydref. Nodwyd bod yr Adroddiad Chwarterol yn cael ei gyflwyno i'r CBC er mwyn nodi'r gwaith a gwblhawyd gan yr Is-bwyllgor a gan y swyddogion sy'n gweithio ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Eglurwyd oherwydd natur y ffordd y mae'r gwaith yn symud ymlaen, fod rhywfaint o'r cynnwys yn yr Adroddiad Chwarterol bellach wedi dyddio, ond tynnwyd sylw at y cynnwys oedd wedi newid ers hynny, sef:

- Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros drafnidiaeth yng Ngogledd Cymru ac wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru bellach.
- Cyflwynwyd y Rhaglen Arfaethedig o Gynlluniau, ynghylch Cronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol, i Lywodraeth Cymru'r wythnos diwethaf ac felly nawr yn aros am adborth gan Lywodraeth Cymru.

Cytunwyd y byddai Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn cael ei wahodd i

gyfarfodydd yn y dyfodol i gyflwyno adroddiadau chwarterol.

**10. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM - CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL BLWYDDYN 1**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr a Iain Taylor, AMION Consulting

**PENDERFYNWYD:**

**Ystyriwyd yr eitemau a ganlyn i'w cymeradwyo:**

**• Dyraniadau buddsoddi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol;**
**• Rhaglenni'r Parth Buddsoddi fel y nodir yn Adran 3 yr adroddiad hwn;**
**• Cylch Gorchwyl Gweithgor Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam (Atodiad 1);**
**• Y caniateir i Swyddog Adran 151 y CBC lofnodi a chyhoeddi dogfennau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a gwneud unrhyw ddiwygiadau**
**ansylweddol pellach sy'n angenrheidiol i gytuno ar y CCB gyda'r ddwy Lywodraeth.**

**TRAFODAETH**

Adroddwyd ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 1 ar gyfer Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam. Nodwyd bod hwn yn gyfle cyffrous i Sir y Fflint a Wrecsam, ac i Ogledd Cymru i gyd. Ymhelaethwyd y bydd hyn yn cyflawni statws byd-eang gwell yn y sector Gweithgynhyrchu Uwch yng Ngogledd Cymru.

Adroddwyd bod y Parth Buddsoddi bellach yn y cyfnod cyflawni. Atgoffwyd Aelodau bod rhaid gosod cynllun cyflawni bob blwyddyn, a'r bwriad ydi cyflawni allbwn y rhaglen ym mhob blwyddyn. Hysbyswyd yr aelodau fod cymeradwyaeth yn cael ei geisio ar gyfer cynllun cyflawni'r flwyddyn gyfredol, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2025.

Eglurwyd y byddai cymeradwyaeth yn galluogi'r CBC i gyflwyno'r Cynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 1, a fyddai'n sbarduno'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth derfynol wedi'i lofnodi a'r llythyr cynnig grant ar gyfer cronfeydd blwyddyn un. Ymhelaethwyd y byddai gwaith paratoi yn cychwyn ar gronfa Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 2, a bydd yn cychwyn ym mis Ebrill 2026. Eglurwyd y bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Gwaith Sir y Fflint a Wrecsam ac hefyd i'r CBC.

Manylwyd bod y rhaglen wedi'i hen sefydlu, a fod yn cwmpasu sgiliau, cymorth busnes, seilwaith, ac ati. Nodwyd bwriad i gydweithio â phartneriaid ar draws Gogledd Cymru, ac i bartneriaid gyflawni rhaglenni datblygu arloesedd a chynigion ar gyfer partneriaethau allweddol gyda chwmnïau gweithgynhyrchu ac ar gyfer dylunio a datblygu'r rhaglen de-garboneiddio ymhellach.

Adroddwyd bod cynigion gan Goleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam wedi cael eu derbyn ar gyfer y cam gyntaf o'r rhaglen sgiliau, ac mi fydd y rhain yn cael eu rhannu gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Nodwyd y byddai'r CBC yn penderfynu ar y rhaglen sgiliau fel mai o'n dod yn ei flaen. Ymhelaethwyd mai'r bwriad yw ymrwymo i gytundebau ariannu i lansio rhaglen cymorth busnes yn Sir y Fflint a Wrecsam, a fydd yn gweld busnesau yno'n gwneud cais am grant a chymorth.

Nodwyd bod yr adroddiad yn adrodd ar weithgareddau lefel uchel a'r dyraniadau ariannol ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf. Pwysleisiwyd yr angen i ystyried dyraniadau

blwyddyn un yn y cyfarfod hwn.

Ychwanegwyd y byddai penderfyniadau ynghylch y Parth Buddsoddi yn cael eu gwerthuso a'u cytuno gydag arweinwyr Sir y Fflint a Wrecsam, ond bydd yr adroddiad gyda'r CBC i'w gytuno yn derfynol. Byddai mandad yn cael eu rhoi i Swyddog Cyllid Statudol y CBC i lofnodi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol gyda'r amod bod unrhyw addasiadau ansylweddol yn cael eu gwneud yn ôl ei ddisgresiwn ac yn cael eu cyflwyno yn ôl i'r CBC.

Diolchwyd am y diweddariad. Mynegwyd pryder am ddiffyg ymgysylltiad ag ysgolion a phobl ifanc, yn enwedig o amgylch prentisiaethau a'r cyfle i bobl ifanc ymgysylltu â'r prosiect. Ychwanegwyd balchder i weld Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi'i chynnwys yn y prosiect, yn enwedig i gefnogi'r prosiect gweithio dros y rhanbarth. Nodwyd bydd rhaid i'r agenda sgiliau edrych yn rhanbarthol ac nid yn unig Sir y Fflint a Wrecsam. Cytunwyd bod yn bwysig i'r awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i gefnogi llwyddiant y Parth Buddsoddi.

Gofynnwyd am Fwrdd Cynghori Parth Buddsoddi, a sut y mae'n ffitio o fewn y strwythur llywodraethu. Mewn ymateb, gofynnwyd i'r ymgynghorydd yrru e-bost i'r holl Aelodau gyda manylion am y Bwrdd Cynghori Parth Buddsoddi a diagram o'r strwythur llywodraethu. Nodwyd ei bod yn ofynnol i Barthau Buddsoddi gael byrddau cynghori annibynnol, er mwyn gallu cymryd cyngor ac argymhellion ar y cyfeiriad strategol, a nodwyd mai'r  bwriad yw adrodd yn chwarterol i'r grŵp hwn.

Cadarnhawyd mai'r CBC yw'r corff atebol ar gyfer bob penderfyniad.

Talwyd diolchiadau i'r holl swyddogion.

## 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bu I'r  Cadeirydd gynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig  mewn bod yn agored  ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig.  Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau busnes cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi.  Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â  chytuno trefniadau penodi gan gynnwys manylion swydd ac amodau a thelerau cyflog  fydd yn destun proses recriwtio gystadleuol.

## 12. PENODI CYFARWYDDWR PORTFFOLIO AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr

**PENDERFYNWYD:**

**Cytunwyd i hysbysebu swydd Cyfarwyddwr Portffolio ar sail llawn amser parhaol, ar gyflog blynyddol ar raddfa hyd at £93,163.**

**Awdurdodwyd cychwyn proses recriwtio i benodi Cyfarwyddwr Portffolio.**

**Cytunwyd bod cynnal y broses recriwtio, gan gynnwys yr hysbysebu, yn cael ei dirprwyo i'r Prif Weithredwr.**

**Addaswyd y gofynion ieithyddol yn y Swydd Ddisgrifiad i gynnwys fod y gallu i siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg yn ddymunol yn hytrach na' hanfodol.**

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:30

**CADEIRYDD**

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

23 Ionawr 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cyllideb 2026/27, Ardoll ar Awdurdodau Cyfansoddol a Chyfraniadau Partneriaid |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu cyllideb arfaethedig Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf ar gyfer 2026/27.

## 2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

### Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

2.1. Cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2026/27 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.

2.2. Cymeradwyo'r ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol fel y nodir yn Atodiad 1.

### Cynllun Twf

2.3. Cymeradwyo cyllideb refeniw y Cynllun Twf ar gyfer 2026/27 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.

2.4. Cymeradwyo'r cyfraniadau ariannu sy'n cynnwys cyfraniadau partneriaid, cyfraniadau atodol awdurdodau lleol a chyfraniadau llog partneriaid.

2.5. Cymeradwyo cyllideb gyfalaf y Cynllun Twf ar gyfer 2026/27 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 3.

## 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'n ofyniad statudol i'r CBC gymeradwyo ei gyllideb mewn cyfarfod o'r CBC erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn.

3.2. Mae angen i gyllideb flynyddol y Cynllun Twf hefyd cael ei chymeradwyo er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Rheoliadau 16 ac 17 o'r Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 yn manylu ar y broses i gytuno ac ariannu'r costau. Unwaith eto ar gyfer 2026/27, argymhellir bod


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

cyllideb y CBC yn cael ei hariannu trwy ardoll a ddosrannwyd rhwng yr awdurdodau cyfansoddol yn seiliedig ar y boblogaeth sy'n berthnasol i'r maes gwaith.

4.2. Mae'r Cytundeb Cyflawni ac Ariannu yn nodi'r trefniadau ariannu ar gyfer y Cynllun Twf. Yn unol â'r Cytundeb, bydd y gyllideb ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cyfraniadau blynyddol gan partneriaid, cyfraniadau atodol gan awdurdodau lleol a chyfraniadau i ariannu costau benthyca prosiectau.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

### Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

5.1. Dangosir cyllideb y CBC ar gyfer 2026/27 yn Atodiad 1 ac mae wedi'i rhannu'n bedwar pennawd sef Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth, Parth Buddsoddi a swyddogaethau corfforaethol. Mae hyn yn caniatáu i gyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol gael eu codi drwy ardoll ar wahân ar gyfer swyddogaethau 'Cynllunio' a 'Eraill'.

5.2. Cyfanswm cyllideb gwariant ar gyfer 2026/27 yw £2,159,770, gyda £200,000 yn cael ei ariannu gan ddyraniad y Parth Buddsoddi, £100,000 gan Grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, £200,000 gan Grant CBC Llywodraeth Cymru, £20,000 o incwm llog, £624,590 o'r gronfa wrth gefn (a fydd yn gadael tua £0.8m yn y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2027) a £1,015,180 o'r ardoll ar awdurdodau cyfansoddol.

5.3. Mae'r gyllideb wedi cynyddu yn gyffredinol oherwydd adnoddau a gwasanaethau ychwanegol sydd eu hangen i gynorthwyo gwaith y CBC yn y dyfodol. Mae'r cynnydd yn cael ei ddangos yn bennaf o fewn llinellau gweithwyr, cyflenwadau a gwasanaethau a gwasanaethau cefnogol, gyda llinellau cyllideb ychwanegol wedi'u hychwanegu megis costau hyfforddiant, hysbysebu ac asesu ymgeiswyr, eiddo, marchnata a chostau banc. Mae'r llinell prosiectau (yn y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau) yn ymwneud â gwariant a fydd yn cael ei ariannu gan grant CBC Llywodraeth Cymru – bydd hyn yn cael ei ddadansoddi ymhellach wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael.

5.4. Er mwyn cefnogi trefniadau llywodraethu ymhellach ar draws y CBC (gan gynnwys y Parth Buddsoddi a’r Cynllun Twf), mae angen Swyddog Monitro llawn amser a 0.6 cyfwerth ag amser llawn Swyddog Adran 151. Mae costau'r Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 o dan y pennawd gwasanaethau cefnogol yn seiliedig ar 0.35 cyfwerth ag amser llawn a 0.18 cyfwerth ag amser llawn yn y drefn honno (sydd wedyn yn cael eu rhannu rhwng CBC a’r Cynllun Twf). Er mwyn cynyddu'r capasiti i ateb y gofynion hyn, mae £129,790 ychwanegol wedi'i gyllidebu, gyda £81,110 i'r CBC, £16,230 i'r Parth Buddsoddi a £32,450 i'r Cynllun Twf.

5.5. Mae'r gyllideb gwariant net wedi'i chrynhoi isod:

- Cynllunio Strategol (6 Arweinydd a Chadeirydd Parc - mwyafrif syml, cworwm = 5)
- Swyddogaethau eraill y CBC gan gynnwys Trafnidiaeth (6 Arweinydd - mwyafrif syml, cworwm = 5).

| Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Cyllideb |
|---|---|---|---|
| £ | £ | £ | £ |
| 388,170 | 179,130 | 447,880 | 1,015,180 |

5.6. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, bydd cyllideb gyffredinol y CBC a'r gyllideb Trafnidiaeth yn cael eu hariannu gan chwe awdurdod Gogledd Cymru, tra bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn cyfrannu tuag at y gyllideb Cynllunio Strategol (lle bydd ganddynt bleidlais). Mae'r ardoll ar gyfer pob awdurdod cyfansoddol wedi'i rhannu yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth a chyfanswm y gyllideb net.

5.7. Mae'r ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol wedi'i nodi isod:

- Cynllunio Strategol (Unfrydedd, cworwm = 7)
- Swyddogaethau Eraill (Unfrydedd, cworwm = 6)

| | Cynllunio Strategol | Swyddogaethau eraill | Cyfanswm Ardoll |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (61,450) | (103,330) | (164,780) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (54,690) | (88,350) | (143,040) |
| Cyngor Sir y Fflint | (86,790) | (140,200) | (226,990) |
| Cyngor Gwynedd | (56,130) | (108,660) | (164,790) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (38,480) | (62,130) | (100,610) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (76,970) | (124,340) | (201,310) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | (13,660) | | (13,660) |
| **Cyfanswm Ardoll** | **(388,170)** | **(627,010)** | **(1,015,180)** |

5.8. Mae'r ardoll wedi cynyddu £112,700 ar gyfer 2026/27 oherwydd chwyddiant (3.5%) a'r costau ychwanegol o gynyddu capasiti'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 ar gyfer y CBC (£81,110).

5.9. Cyhoeddwyd cymeradwyaeth derfynol gan Lywodraethau'r DU a Chymru ar gyfer Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yng Nghyllideb 2025. Dros ddeng mlynedd y Parth Buddsoddi, mae cyfanswm o £6.4m ar gael i gefnogi gweinyddiaeth y rhaglen. O'r dyraniad hwn, dyrennir £200,000 y flwyddyn i'r CBC i ymgymryd â'i rôl statudol fel y corff atebol. Bydd angen cymorth cyfreithiol yn 2026/27, ac felly mae cyllideb wedi'i dyrannu i'r llinellau perthnasol, gyda'r gyllideb sy'n weddill wedi'i dyrannu i gostau sefydlu. Bydd angen adolygu’r penawdau cyllideb fel gwasanaethau cefnogol ar gyfer y Parth Buddsoddi pan fydd rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gael.

## Cynllun Twf

Cyllideb Refeniw

5.10. Mae Atodiad 2 yn gosod cyllideb refeniw arfaethedig y Cynllun Twf fesul pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.

5.11. Cyfanswm y gyllideb wariant ar gyfer 2026/27 yw £2,946,070, gyda £469,900 yn cael ei ariannu gan cyfraniadau partneriaid, £240,000 gan cyfraniadau atodol awdurdodau lleol, £154,090 gan cyfraniadau llog partneriaid, £660,000 o'r 2.15% o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru a ddyrannwyd i ariannu gwariant refeniw, £435,350 o ddyraniad y prosiectau o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru i ariannu swyddi sy'n benodol i'r prosiectau hyn a £986,730 o'r gronfa adnoddau.

5.12. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025, cymeradwyodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drosglwyddo'r llog a dderbyniwyd ar falansau grant Cynllun Twf yn 2024/25 a 2025/26 i gronfa benodol wrth gefn i ariannu swyddi ychwanegol y llywodraeth, cadw capasiti'r Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol yn ogystal â chostau datblygu prosiectau. Bydd defnyddio'r gronfa hon yn 2026/27 yn gadael balans amcangyfrifedig o tua £2.9m ar 31 Mawrth 2027.

5.13. Mae'r cyfraniadau gan bartneriaid wedi'u crynhoi isod:

| | Cyfraniadau Partneriaid | Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol | Cyfraniadau Llog Partneriaid | Cyfanswm Cyfraniadau |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,730) | (40,000) | (18,140) | (116,870) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (58,730) | (40,000) | (6,070) | (104,800) |
| Cyngor Sir y Fflint | (58,730) | (40,000) | (9,140) | (107,870) |
| Cyngor Gwynedd | (58,730) | (40,000) | (6,780) | (105,510) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (58,730) | (40,000) | (28,370) | (127,100) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (58,730) | (40,000) | (18,970) | (117,700) |
| Prifysgol Bangor | (29,380) | | (23,270) | (52,650) |
| Prifysgol Wrecsam | (29,380) | | (24,250) | (53,630) |
| Coleg Cambria | (29,380) | | | (29,380) |
| Grŵp Llandrillo Menai | (29,380) | | (19,100) | (48,480) |
| **Cyfanswm Cyfraniadau** | **(469,900)** | **(240,000)** | **(154,090)** | **(863,990)** |

5.14. Bydd cyfraniadau partneriaid yn aros yr un fath â 2025/26 oherwydd y gostyngiad yng nghyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2026/27 yn gwrthbwyso'r addasiad alldro ar gyfer 2025/26 a'r amcan chwyddiant cyflog ar gyfer 2026/27.

5.15. Cymeradwywyd y cyfraniadau atodol fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni ac Ariannu ac maent yn daliad blynyddol parhaus a ddarperir gan bob Cyngor i ariannu'n rhannol gyllideb flynyddol y Cynllun Twf.

5.16. Yn 2020, comisiynwyd Arlingclose (cwmni ymgynghorol trysorlys annibynnol) i fodelu cost benthyca a'r cyfraniadau partner blynyddol cyfatebol sy'n ofynnol i dalu'r gost hon, a chynhwyswyd cyfraniadau yng nghyllideb 2021/22 ymlaen. Er bod llawer o'r newidynnau a all effeithio ar y costau hyn yn parhau i fod yn ansicr, mae'r cyfraniadau diwygiedig ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael a bydd lefel y cyfraniadau sydd eu hangen ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn cael eu hadolygu eto wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael yn ystod y flwyddyn.

5.17. Mae newidiadau mewn prosiectau yn y proffil cyfalaf wedi arwain at gynnydd cyffredinol yn y gost amcangyfrifedig o fenthyca o'i gymharu â'r cyfrifiad blaenorol a wnaed ar gyfer cyllideb 2025/26 a hefyd wedi newid cyfran y partneriaid o'r gost fenthyca, sy'n cael ei adlewyrchu yn lefelau cyfraniadau llog partneriaid. Mae rhai partneriaid hefyd yn arwain eu prosiectau Cynllun Twf eu hunain, ac felly mae'r gost gysylltiedig o fenthyca wedi'i ychwanegu at eu cyfraniadau llog. Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae'r cyfraniadau llog yn parhau i fod o fewn y trothwy sydd wedi eu cymeradwyo yn y Cytundeb Cyflawni ac Ariannu.

Cyllideb Cyfalaf

5.18. Mae'r gyllideb gyfalaf yn adlewyrchu'r proffil gwariant diweddaraf ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf dros y cyfnod 2021/22 i 2034/25, ynghyd â'r brigdorri 2.15% i ariannu'r gyllideb refeniw dros yr un cyfnod. Mae'n seiliedig ar amserlen y prosiectau diweddaraf, a chaiff ei adolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r achosion busnes gael eu cymeradwyo.

5.19. Yn dilyn adolygiad portffolio gan Uchelgais Gogledd Cymru, cafodd rhai prosiectau'r Cynllun Twf eu dileu yn 2025/26 a sefydlwyd Rhestr Wrth Gefn. Arweiniodd hyn at newidiadau yn y proffil cyfalaf, lle sicrhaodd prosiectau newydd a oedd ar y Rhestr Wrth Gefn gyllid ar ôl derbyn cymeradwyaeth eu hachosion busnes, a symudwyd rhai prosiectau a oedd yn flaenorol yn y proffil cyfalaf i'r Rhestr Wrth Gefn.

5.20. Er y bydd y gwariant cyfalaf o £240m yn cael ei ariannu gan y grant Cynllun Twf, bydd amseriad derbyn y grant yn golygu y bydd angen benthyca yn y tymor byr. Bydd cost benthyca yn cael ei ariannu gan bartneriaid ac arianwyr prosiectau, ac mae partneriaid eisoes wedi bod yn cyfrannu swm blynyddol tuag at y costau hyn sydd wedi'i neilltuo mewn cronfa wrth gefn benodol.

5.21. Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio i gytuno ar proffil ariannu diwygiedig o'r grant Cynllun Twf gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

5.22. Gyda phrosiectau cyfalaf, mae bob amser risg o orwario, a rhoddir mesurau rheoli yn eu lle i gyfyngu costau gorwario ar brosiectau penodol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gyfrifol am reoli gwariant a sicrhau bod cyllidebau wrth gefn digonol wedi'u cynnwys yn achosion busnes y prosiectau. Byddai gorwariant yn fater i arianwyr y prosiectau ymdrin ag ef mewn perthynas â'u prosiectau nhw.

5.23. Bydd adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd y CBC a'r Cynllun Twf yn cael eu cyflwyno i staff Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn. Gwneir adolygiad manwl pellach ddiwedd Gorffennaf 2026 a Rhagfyr 2026 a'i gyflwyno i gyfarfodydd y CBC a'r is-bwyllgorau priodol, gydag unrhyw faterion yn cael eu hamlygu a'r camau priodol wedi'u cymryd.

## 6. ASESIAD EFFAITH

6.1. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

6.2. Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, wrth wneud penderfyniadau, rhaid i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig dalu sylw dyledus i'r angen (1) ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Gan fod gosod cyllideb yn dod o fewn y penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae'r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi'i ddylunio i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Gan fod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn dal yn ei flynyddoedd cynnar, ni ystyrir bod unrhyw ardrawiadau penodol yn deillio o'r penderfyniadau sydd gerbron.

6.3. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni saith o nodau llesiant, sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a

diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd-destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae Rheoliadau 16 ac 17 o’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 yn manylu ar y broses i gytuno ac ariannu’r costau. Mae’r rheoliadau yn gosod gofynion penodol ynglŷn â cyfrifo a chymeradwyo gofynion cyllideb (Rheoliad 16) ac yna, fel ail gam, cytuno cyfraniadau ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol (Rheoliad 17). Yn ôl statud, rhaid i’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig fabwysiadu’r Gyllideb erbyn 31 Ionawr 2026. Petai y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn methu â chytuno y cyfraniadau, yna mae gan Weinidogion Cymru rym statudol i gyfarwyddo ar ddosraniad y cyfraniadau.

7.2. Fe nodir yn y penderfyniadau a geisir fod gofynion penodol ynglŷn â cworwm a pleidleisio yn perthyn i’r penderfyniadau yma. Felly, mae angen sicrhau fod y pleidleisio yn cael ei drefnu mewn modd sydd yn adlewyrchu ar yr un llaw hawliau pleidleisio penodol sydd yn ynghlwm â gosod y gyllideb ac ar y llaw arall yr angen am unfrydedd ar y penderfyniadau ar yr ardoll eto gan wahanu y ddwy elfen.

7.3. Mae Uwch Swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru yn ogystal â'r Swyddog Monitro wedi cyfrannu at y gyllideb hon.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cyllideb Refeniw 2026/27 Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Atodiad 2: Cyllideb Refeniw 2026/27 y Cynllun Twf

Atodiad 3: Cyllideb Gyfalaf 2026/27 y Cynllun Twf

---

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r gofynion technegol sy'n gysylltiedig â'r penderfyniadau hyn ynghyd â'r dyletswyddau statudol sy'n gysylltiedig â sefydlu'r gyllideb a'r ardoll.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

**Cyllideb Refeniw 2026/27 Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru** **Atodiad 1**

| | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Parth Buddsoddi | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Cyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Gweithwyr** | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 253,280 | 116,890 | 0 | 495,550 | 865,720 |
| Capasiti ychwanegol y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 | 0 | 0 | 16,230 | 81,110 | 97,340 |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 0 | 2,090 | 2,090 |
| Hyfforddiant | 0 | 0 | 0 | 6,000 | 6,000 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 2,000 |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **253,280** | **116,890** | **16,230** | **586,750** | **973,150** |
| **Teithio** | | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 920 | 400 | 0 | 1,790 | 3,110 |
| **Cyfanswm Teithio** | **920** | **400** | **0** | **1,790** | **3,110** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | | |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 16,070 | 16,070 |
| Offer a chyfarpar | 3,390 | 1,450 | 0 | 6,540 | 11,380 |
| Cyflenwadau amrywiol | 920 | 400 | 0 | 1,780 | 3,100 |
| Marchnata | 0 | 0 | 0 | 10,000 | 10,000 |
| Costau banc | 0 | 0 | 0 | 1,720 | 1,720 |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 960 | 1,200 | 0 | 2,880 | 5,040 |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 0 | 41,480 | 41,480 |
| Ymgynghorwyr allanol | 250,000 | 100,000 | 0 | 10,560 | 360,560 |
| Yswiriant | 2,280 | 1,060 | 0 | 4,530 | 7,870 |
| Systemau | 34,940 | 6,170 | 0 | 14,800 | 55,910 |
| Prosiectau | 0 | 0 | 0 | 141,500 | 141,500 |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **292,490** | **110,280** | **0** | **251,860** | **654,630** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid (yn cynnwys Swyddog Adran 151) | 12,090 | 11,330 | 0 | 49,080 | 72,500 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 10,980 | 10,980 | 34,140 | 47,600 | 103,700 |
| Cefnogaeth Democratiaeth | 14,720 | 18,390 | 0 | 44,140 | 77,250 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 7,920 | 8,610 | 0 | 19,750 | 36,280 |
| Technoleg Gwybodaeth | 5,250 | 2,250 | 0 | 10,130 | 17,630 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **50,960** | **51,560** | **34,140** | **170,700** | **307,360** |
| **Costau sefydlu** | | | | | |
| Cyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 13,390 | 13,390 |
| Ymgynghorwyr Allanol | 0 | 0 | 0 | 58,500 | 58,500 |
| Parth Buddsoddi | 0 | 0 | 149,630 | 0 | 149,630 |
| **Cyfanswm Costau sefydlu** | **0** | **0** | **149,630** | **71,890** | **221,520** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant** | **597,650** | **279,130** | **200,000** | **1,082,990** | **2,159,770** |
| **Llywodraeth Cymru - Grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol** | 0 | (100,000) | 0 | 0 | **(100,000)** |
| **Llywodraeth Cymru - Grant CBC** | 0 | 0 | 0 | (200,000) | **(200,000)** |
| **Parth Buddsoddi** | 0 | 0 | (200,000) | 0 | **(200,000)** |
| **Llog ar falansau** | 0 | 0 | 0 | (20,000) | **(20,000)** |
| **Cyfraniad o gronfa** | (209,480) | 0 | 0 | (415,110) | **(624,590)** |
3.1. Bydd yr is-bwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol a gall argymell unrhyw ddiwygiadau i'r CBC. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r telerau hyn gael eu cymeradwyo gan y CBC. Rhaid i'r Is-bwyllgor weithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau hynny fel y'u cymeradwyir gan y CBC ac a nodir yn y Cylch Gorchwyl – y rhain yw'r pwerau sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor.

3.2 Mae'r Cylch Gorchwyl hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r is-bwyllgor gynnal hunanasesiad blynyddol o'i weithgareddau. Fel rhan o'r asesiad bydd yn ystyried a yw'n derbyn cefnogaeth ddigonol a phriodol i gyflawni ei rôl ac a yw ei gynllun gwaith blynyddol yn hylaw ai peidio.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwyodd y CBC sefydlu'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a'i aelodaeth, gan gynnwys hawliau pleidleisio, i gyflawni'r swyddogaeth o ddatblygu a chynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a pholisïau cysylltiedig ar gyfer y CBC. Er mai tasg i'r Is-bwyllgor ei gwneud yw datblygu polisïau trafnidiaeth, cedwir y pŵer cymeradwyo neu adolygu i'r CBC.

4.2 Mae'r manylion a gyflwynir gerbron yr is-bwyllgor wedi'u nodi yn yr adroddiad yn Atodiad 1. Mae'r swyddogaethau a nodir yn y paragraff dan y pennawd 'Rôl' yn y Cylch Gorchwyl yn cael

eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor o'r CBC. Cefnogodd yr is-bwyllgor yn unfrydol y newidiadau i'r Cylch Gorchwyl i argymell adrodd bob chwe mis fel proses fwy cynaliadwy ar gyfer adrodd ar berfformiad a chynnydd, ac i gynnwys y pŵer i wneud argymhellion i'r CBC ar gyllid, a rhaglenni arfaethedig i'w hariannu.

4.3 Mae'r hunanasesiad blynyddol (mae'r adroddiad yn Atodiad 2) wedi'i gynnal fel holiadur sy'n edrych ar waith yr is-bwyllgor yn ei gyfanrwydd – gan gynnwys a yw'r Aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi o'r adeg y maent yn cael eu cyfethol a thrwy gydol eu gwaith ar yr is-bwyllgor. Mae'r adborth o'r holiadur yn gadarnhaol ac fe wnaeth yr Aelodau nodi eu cefnogaeth a chymeradwyo'r canfyddiadau.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

## ATODIADAU:

Atodiad 1: Adroddiad i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol – Cylch Gorchwyl.

Atodiad 2: Adroddiad i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol – hunanasesiad.

---

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisir.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

15 Rhagfyr 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol |
| AWDUR: | Claire Incledon |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Argymell y newidiadau a ganlyn i'r Cylch Gorchwyl i'r CBC:

- Bod y gofyn i gynhyrchu adroddiad cynnydd chwarterol yn cael ei ddisodli gan adroddiadau bob chwe mis.
- Bod gan yr is-bwyllgor y pŵer dirprwyedig i ystyried a gwneud argymhellion i'r CBC ar gyllid trafnidiaeth rhanbarthol ac ymrwymiadau cynlluniau.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Bydd yr is-bwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol a gall argymell unrhyw ddiwygiadau i'r CBC. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r telerau hyn gael eu cymeradwyo gan y CBC. Rhaid i'r Is-bwyllgor weithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau hynny fel y'u mabwysiadir gan y CBC ac a nodir yn y Cylch Gorchwyl – y rhain yw'r pwerau sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwyodd y CBC sefydlu'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a'i aelodaeth, gan gynnwys hawliau pleidleisio, i gyflawni'r swyddogaeth o ddatblygu a chynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a pholisïau cysylltiedig ar gyfer y CBC. Er mai tasg i'r Is-bwyllgor ei gwneud yw datblygu polisïau trafnidiaeth, cedwir pŵer cymeradwyo neu adolygu i'r CBC.

4.3 Mae'r swyddogaethau a nodir yn y paragraff dan y pennawd 'Rôl' yn y Cylch Gorchwyl yn cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor o'r CBC. Mae natur strategol rôl yr Is-bwyllgor yn darparu ar gyfer datblygu polisi ar sail ranbarthol. Er mwyn monitro'r cynnydd hwn, mae'r Is-bwyllgor yn darparu adroddiadau rheoli perfformiad i'r CBC a diweddariadau rheolaidd ar reoli adnoddau a datblygu polisi, gan ystyried ei rwymedigaethau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dyletswyddau statudol eraill.

4.5 Mae'r Is-bwyllgor yn cwrdd bob chwarter ac ar hyn o bryd mae'r Cylch Gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol iddo baratoi adroddiad cynnydd i gwmpasu ei berfformiad, ei ganlyniadau a'i ofynion adnoddau. Mae'r cyfnod byr i baratoi'r adroddiadau hyn yn tanseilio'u pwrpas i ddarparu amser

i ganolbwyntio’n ystyrlon ar berfformiad a rheoli adnoddau. Gofynnir i'r aelodau argymell adrodd bob chwe mis fel proses fwy cynaliadwy ar gyfer adrodd ar berfformiad a chynnydd.

4.6 Mae datblygiadau diweddar wrth weithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi cynnwys ffyrdd newydd o weithio drwy foderneiddio grantiau. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu canllawiau ar ddatblygu'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol (RTF) sydd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen o gynlluniau i gyflawni'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Ar hyn o bryd rôl yr is-bwyllgor yw gwneud argymhellion ar gynlluniau a pholisïau trafnidiaeth rhanbarthol. Mae gwaith gyda'r is-bwyllgor wrth symud ymlaen â'r flwyddyn drosiannol gyntaf o raglennu grantiau wedi dangos bwlch yn swyddogaethau'r is-bwyllgor. O ganlyniad, gofynnir i'r Aelodau ystyried bod y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiwygio i gynnwys y pŵer i wneud argymhellion i'r CBC ar gyllid, dosbarthu grantiau a rhaglenni arfaethedig i'w hariannu.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth strategol gyda diwygiadau

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:
Mae'r adroddiad wedi'i baratoi gan y Dirprwy Swyddog Monitro. Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisir.

**IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL - CYLCH GORCHWYL**

**Rheoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig**

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn darparu y bydd y CBC yn gweithredu'r swyddogaethau o ddatblygu polisïau dan adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000.

Mae'r Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth)(Cymru) yn addasu Deddf Trafnidiaeth 2000 mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir dan Ran 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, lle mae swyddogaethau datblygu polisïau dan adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000 wedi'u cyflwyno i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

**RÔL:**

- Gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gymeradwyo ac adolygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.
- Gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar bolisïau i'w gweithredu gan yr awdurdodau trafnidiaeth lleol yn ei ardal o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
- Gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyllid trafnidiaeth rhanbarthol ac ymrwymiadau cynlluniau.
- Cynghori a gwneud argymhellion ar wasanaeth trafnidiaeth strategol integredig a chyd-gysylltiedig yn y Gogledd; drwy fonitro ac adolygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol..
- Cynllunio, cydlynu a chynghori ar ymatebion rhanbarthol i gynigion Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru.
- Adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gynnydd, perfformiad, canlyniadau a gofynion adnoddau.
- Cadw ei gynlluniau a'i bolisïau trafnidiaeth rhanbarthol dan adolygiad ac argymell unrhyw newidiadau os yw'n ystyried ei bod hi'n briodol gwneud hynny.
- Ymgymryd ag unrhyw weithgareddau sy'n ategol neu'n rhesymol gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaethau hyn

Bydd gan gadeirydd yr is-bwyllgor rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth a chysylltiadau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yng nghyswllt gwaith yr Is-bwyllgor a'i rôl ymgynghorol wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Cynghorir yr Is-bwyllgor gan Swyddogion y CBC a'i Swyddogion Statudol neu eu cynrychiolwyr neu ddirprwyon a benodir yn briodol.

**Strategol**

- ➢ cydlynu gweithgarwch Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill fel y byddai dull rhanbarthol strategol yn ei le yn y maes polisi perthnasol;

- ➢ darparu cyngor strategol perthnasol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig;

- ➢ cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol a rhaglenni ariannu;

- ➢ gweithredu penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhoi cyfarwyddyd ac yn comisiynu'r Is-bwyllgorau i ymgymryd â thasgau allweddol.

**Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau**

- Cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol o fewn y Cylch Gorchwyl hwn;
- Monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol, a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Monitro ac adolygu lefel a defnydd adnoddau gan gynnwys staff a lle mae'n ystyried yn briodol, gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn.

**Rheoli Adnoddau**

- Monitro ac adolygu lefel a defnydd yr adnoddau sydd eu hangen gan gynnwys staff, a gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn pan mae'n ystyried bod hynny'n briodol.

**Rheoli Perfformiad**

Cydlynu adrodd am berfformiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. **CYFRIFOLDEBAU A'R HYN SYDD I'W GYFLAWNI:**

**Cyfathrebu a Chodi Ymwybyddiaeth**

Bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn paratoi adroddiad bob chwe mis ar ei waith ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a fydd yn cynnwys:

- Cynnydd ar weithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Rhaglenni a Phrosiectau unigol.
- Perfformiad Ariannol y Pwyllgor
- Datblygiadau sydd ar y gweill.

Bydd yr adroddiad yn ffurfio rhan o brotocol craffu cytûn a bydd ar ffurf a fydd yn hwyluso ei gyflwyno i drefniadau Craffu neu drefniadau llywodraethu eraill fel y pennir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**CWORWM:**

Rhaid i ddim llai na 5 aelod fod yn bresennol.

**ADOLYGU:**

Bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn cynnal hunan-asesiad blynyddol o'i weithgareddau o dan y Cylch Gorchwyl hwn ac yn adrodd unrhyw gasgliadau ac argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac, fel rhan o'r asesiad hwn, bydd yn ystyried a yw'n derbyn cefnogaeth ddigonol a phriodol ai peidio wrth gyflawni ei rôl ac a yw ei gynllun gwaith blynyddol yn hylaw ai peidio.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol a gall argymell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig unrhyw ddiwygiadau i'w Gylch Gorchwyl.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

15 Rhagfyr 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adolygiad hunanasesu blynyddol yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol |
| AWDUR: | Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro) |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r hunanasesiad blynyddol o weithgareddau'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Adrodd ar unrhyw gasgliadau ac argymhellion sy'n deillio o'r hunanasesiad i'r CBC.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Cylch Gorchwyl yn darparu y bydd yr is-bwyllgor yn cynnal hunanasesiad blynyddol o'i weithgareddau. Fel rhan o'r asesiad bydd yn ystyried a yw'n derbyn cefnogaeth ddigonol a phriodol i gyflawni ei rôl ac a yw ei gynllun gwaith blynyddol yn hylaw ai peidio.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Dechreuodd yr is-bwyllgor ei waith ym mis Hydref 2024 ac yn y cyfnod byr hwnnw mae wedi adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP), y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r dogfennau cymorth polisi cysylltiedig i'w cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ochr yn ochr â'i waith ffurfiol, mae wedi derbyn diweddariadau a chyflwyniadau rheolaidd ar fentrau a chynigion trafnidiaeth cenedlaethol a rhanbarthol. Mae aelodaeth yr is-bwyllgor yn cynnwys deiliaid portffolio o bob awdurdod lleol rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb am drafnidiaeth.

4.2 Hyd yma mae'r Aelodau wedi derbyn adroddiad chwarterol yn amlinellu perfformiad yr is-bwyllgor, gan gynnwys y cynnydd ar yr RTP a rhaglenni a datblygiadau cysylltiedig. Er bod yr adroddiadau hyn wedi bod yn eang, nid yw'r Aelodau wedi cael cyfle i asesu gweithgareddau'r is-bwyllgor yn benodol hyd yma.

4.3 Mae'r hunanasesiad wedi'i gynnal fel holiadur sy'n edrych ar waith yr is-bwyllgor yn ei gyfanrwydd, ac a yw'r Aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi o'r adeg y maent yn cael eu cyfethol i'r is-bwyllgor a thrwy gydol eu gwaith ar yr is-bwyllgor. Mae'r adborth o'r holiadur yn darparu darlun cadarnhaol cyffredinol (mae crynodeb o'r adborth yn Atodiad 1). Mae'r Aelodau wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol a bod yr is-bwyllgor yn ymgymryd â'i rôl yn briodol, gyda'r Blaengynllun Gwaith, rhaglenni a rhannu gwybodaeth i gyd yn gweithio'n dda.

4.4 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae llawer iawn o waith wedi'i wneud yn ymwneud â'r is-bwyllgor newydd hwn a'r aelodaeth i gefnogi cyflawni trafnidiaeth ranbarthol. Derbynnir bod


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

lle i wella bob amser ac mae'r holiadur hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ffyrdd gwell o weithio, ac i sicrhau cyflawni'r RTP.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Adborth ar yr holiadur hunanasesu.

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

| Response | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| A gawsoch ddigon o gefnogaeth gan y CBC pan gawsoch eich cyd-ethol i'r is-bwyllgor? / Did you receive sufficient support from the CJC when you were co-opted on to the sub-committee? | Na / No | Do / Yes | Do / Yes | Do / Yes | Do / Yes |
| Sylwadau / Comments: | Not Really as Cabinet member for Environment, Highways , and Transport I was just ask to join the CJC. | Greater clarity on terms of reference | 0 | 0 | Just joined and the information that I have received assists me greatly for preparing for the meetings. |
| A gawsoch ddigon o wybodaeth am rôl yr is-bwyllgor a'r CBC i gefnogi eich gwaith ar yr is-bwyllgor? / Did you have sufficient information about the role of the sub-committee & CJC to support your work | Na / No | Do / Yes | Do / Yes | Do / Yes | Do / Yes |
| Sylwadau / Comments:1 | I wasn't given any information about the role. | Yes- improving roles | 0 | 0 | I received all the information I needed |
| A oes gennych unrhyw anhawster i gael mynediad at agenda'r is-bwyllgor? / Do you have any difficulties in accessing the sub-committee agendas? | Na / No | Na / No | Na / No | Na / No | Na / No |
| Sylwadau / Comments:2 | No problem with the agendas. | 0 | 0 | I have only had one experience when I did not receive the paper being discussed (the proposal from Ambition North Wales to the CJC sub Group regarding the proposed changes to the governance arrangements. | No |
| A ydych wedi cael unrhyw anhawster i fynychu cyfarfodydd yr is-bwyllgor ar-lein? / Have you had any difficulties in attending sub-committee meetings on-line? | Do / Yes | Na / No | Na / No | Na / No | Na / No |
| Sylwadau / Comments:3 | Some times I have clashes with my Cabinet work for DCC. | 0 | 0 | 0 | No issues |
| Mae gwaith yr is-bwyllgor wedi'i nodi yn ei Gylch Gorchwyl. A ydych chi'n cytuno bod y Rhaglen Waith Ymlaen a'r eitemau ar yr agenda yn adlewyrchu'n ddigonol y busnes y mae angen i'r is-bwyllgor ei ym | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes |
| Sylwadau / Comments:4 | No problem with this. | This this work is improving | 0 | 0 | Items are timely and in tune with the FWP |
| A ydych yn ystyried bod rhaglen sesiynau anffurfiol a chyfarfodydd ffurfiol yr is-bwyllgor yn eich hysbysu'n ddigonol am ddatblygiadau trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol? / Do you consider the s | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes |
| Sylwadau / Comments:5 | Yes I feel that a lot of thought goes into the both meetings. | We need to be clear what's informal and what's the formal role | 0 | 0 | I find these meetings informative and very useful |
| A ydych yn teimlo eich bod yn cael digon o gefnogaeth i gyflawni eich rôl ar yr is-bwyllgor? Os nad ydych, beth allai gael ei wella? / Do you feel adequately supported to carry out your role on the su | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes |
| Sylwadau / Comments:6 | I do now. | 0 | 0 | 0 | As a new member, I am finding my way and I'm receiving a lot of assistance. |
| Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn credu bod yr is-bwyllgor wedi perfformio'n dda? Os nad ydych, beth allai gael ei wneud yn well? / Looking back over the last year do you think t | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Ydw / Yes | Na / No |
| Sylwadau / Comments:7 | Yes there has been a lot of work to do in a short time line. | New roles and responsibilities - and improving | 0 | 0 | Can't comment |
| A oes unrhyw sylw yr hoffech ei roi am reolaeth adnoddau neu berfformiad yr is-bwyllgor a fyddai'n helpu Aelodau i gyflawni eu rôl? / Is there any comment you would like to provide about the resource | Nag oes / No | Nag oes / No | Nag oes / No | Nag oes / No | Nag oes / No |
| Sylwadau / Comments: | Nothing to add realy. | 0 | 0 | 0 | N/A |
| Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu arsylwadau eraill yr hoffech chi eu rhannu? / Do you any other comments or observations you would like to share? | Not really. | The CJC. Is improving all the times its critical to ensure that all LAs are involved and ensure all cabinet members understand their roles. | Nagoes | No | An interesting sub committee that hopefully will advise on major/minor transport improvements, improvements from the grass roots. |

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

23 Ionawr 2026

TEITL: Diweddariad y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol

AWDUR: Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) ar yr adborth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Rhaglen o Gynlluniau drafft a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2025.

2. PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Nodi'r adroddiad.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Rhaglen Cynlluniau drafft ar 7 Tachwedd 2025 i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hadolygu a'i chymeradwyo. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno oedd 21 Tachwedd, 2025.

3.2. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r rhaglen ac anfonodd sylwadau yn ôl at Uchelgais Gogledd Cymru erbyn 19 Rhagfyr, 2025.

3.3. Bydd unrhyw newidiadau sy'n deillio o adborth Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflwyno i'r CBC yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr, 2026. Ni ddisgwylir y bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r rhaglen o gynlluniau a gymeradwywyd gan y CBC y mis Tachwedd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ar gynnydd y rhaglen a'r gwaith a wnaed i sicrhau cymeradwyaeth derfynol gan Weinidog Cymru.

3.4. Ym mis Mawrth 2026, bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo rhaglen y Cronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTF) ac yn anfon llythyrau cynnig yr RTF ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 at yr awdurdodau lleol a'r CBCau (yn amodol ar gymeradwyaeth Weinidogol).

3.5. Bydd awdurdodau lleol yn dechrau cyflawni cynlluniau ym mis Ebrill 2026.

3.6. Yn dilyn canllawiau ariannu Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfrifoldeb am ddatblygu Rhaglen bum mlynedd o Gynlluniau i'w hariannu gan yr RTF ac i ymgymryd â rheolaeth gwariant y grant yn ystod y flwyddyn.

## 4. CEFNDIR

4.1. Mewn canllawiau gan Lywodraeth Cymru, gofynnir i CBCau nodi Rhaglen RTF ddrafft sy'n dangos amserlen gyflawni ar gyfer cynlluniau i dderbyn cyllid yn ystod 2026/27 - blwyddyn gyntaf y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol. Gweithiodd y CBC yn agos â'r holl Gynghorau yn y rhanbarth i adnabod a blaenoriaethu cynlluniau i'w cynnwys yn y Rhaglen ddrafft. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori y gall CBCau argymell dyfarnu cyllid i gynlluniau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2027/28 a 2028/29, hyd at uchafswm o 50% o'r swm sydd ar gael i'r rhanbarth yn 2026/27. Rhaid i'r rhaglen o gynlluniau fod yn unol â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol.

4.2. Yng nghyfarfod y CBC ar 7 Tachwedd 2025, cymeradwyodd y Pwyllgor raglen o gynlluniau drafft i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hadolygu. Yna, cyflwynwyd hyn i Lywodraeth Cymru ar 21 Tachwedd.

## 5. ADBORTH GAN LYWODRAETH CYMRU

5.1. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a swyddogion yr awdurdodau lleol i ymdrin â rhai o'r cwestiynau cynnar sydd wedi'u codi gan Lywodraeth Cymru.

5.2. Anfonodd Llywodraeth Cymru eu sylwadau mwy ffurfiol yn ôl i Uchelgais Gogledd Cymru ar 19 Rhagfyr.

5.3. Darparwyd sylw ar bob cynllun, a rhoddwyd sgôr coch, ambr neu wyrdd i bob cynllun, fel a ganlyn:

- Gwyrdd - Mân sylw nad yw'n atal cymeradwyo, ond y dylid ei ystyried wrth gwblhau'r rhaglen yn derfynol (30 Ionawr 2026) ac/neu weithredu'r gwaith.
- Ambr - Tynnu sylw at fater nad yw'n atal cymeradwyo, ond mae'n rhaid gweithredu arno wrth gwblhau'r rhaglen yn derfynol (30 Ionawr 2026), ac/neu weithredu'r gwaith.
- Coch - Pryder difrifol a allai atal cymeradwyo os nad yw'n cael sylw.

5.4 Yn y cynlluniau sydd ar y rhestr:

- Cafodd 37 sgôr gwyrdd
- Cafodd 43 sgôr ambr. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ymdrin â'r wybodaeth ychwanegol sy'n cael ei cheisio ar y rhain
- Rhoddwyd sgôr goch i dri. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a swyddogion awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd ynghylch y rhain. O'r cynlluniau hyn:
    - Mae un ar y rhestr wrth gefn, felly ni ragwelir y bydd yn achosi unrhyw bryderon i'r rhaglen.
    - Mae un arall, sydd hefyd ar y rhestr wrth gefn, yn ymwneud â pherchnogaeth tir ar gyfer cynllun Teithio Llesol arfaethedig felly rydym yn gweithio gyda'r awdurdod a Llywodraeth Cymru i ddatrys y pryder.
    - Mae'r trydydd yn ymwneud â chyllid pellach posibl ar gyfer y prosiect y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf ac rydym yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru i nodi opsiynau ar gyfer symud ymlaen.

5.5. Mae angen cyflwyno rhestr ddiwygiedig, gyda'r sylwadau wedi derbyn sylw, i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ionawr.

5.6. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, gan nodi'r gwaith parhaus a ddisgrifir yn adran 5.4, ni ddisgwylir y bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r rhaglen o gynlluniau a gymeradwywyd gan y CBC ym mis Tachwedd.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn deillio o'r adroddiad hwn.

---

ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau i'w ychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r CBC yn dilyn cymeradwyo'r Rhaglen Gynlluniau ddrafft ym mis Tachwedd 2025. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r adroddiad hwn, ac nid oes gennyf unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

23 Ionawr 2026

TEITL: Cyflwyno Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol yn ffurfiol

AWDUR: Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cytundeb y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru (SDP) yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae hyn ar ôl i'r CBC osod cyllideb briodol ar gyfer 2026/27, i dalu'r costau o gynhyrchu'r SDP ym mlwyddyn gyntaf yr amserlen a dechrau'r cynllun.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cytuno i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliad 11(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

2.2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Brif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr is-bwyllgor Cynllunio Strategol i wneud unrhyw fân ddiwygiadau golygyddol neu fformatio i'r Cytundeb Cyflawni i'w baratoi i'w gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r cyfrifoldeb i gymeradwyo a chyflwyno'r Cytundeb Cyflawni drafft i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn gyfrifoldeb i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 4. CEFNDIR

4.1. Fe wnaeth aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried Cytundeb Cyflawni drafft yr SDP yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 19 Medi 2025. Yn dilyn adborth o ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni, cytunodd y Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw i gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar wneud penderfyniad ynghylch y cyllid ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol. Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn ystyried newidiadau i'r Cytundeb Cyflawni fel y manylwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori oedd wedi'i atodi i'r adroddiad blaen i'r cyfarfod hwnnw ac mae hefyd yn cynnwys diwygiad gan Aelod a wnaed ac y cytunwyd arno yn y cyfarfod hwnnw, mewn perthynas â chydymffurfiaeth lawn â Safonau'r Gymraeg.

4.2. Fe wnaeth yr Aelodau hefyd ystyried yr adborth a gafwyd o'r ystyriaeth a roddwyd i'r un materion gan yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol a gyfarfu cyn cyfarfod y CBC ar 19 Medi. Un prif bryder a fynegwyd gan yr is-bwyllgor oedd yr effaith y byddai ariannu'r SDP yn ei gael ar gyllidebau presennol yr Awdurdodau Lleol a'r ardoll a delir gan bob awdurdod i ariannu'r CBC. Nodwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor ar 19 Medi bod y rhain yn ystyriaethau ar gyfer y broses o osod cyllideb y CBC yn gyffredinol, ac nid cyllideb ar gyfer yr SDP yn unig.

4.3. Ers y dyddiad hwnnw, mae'r broses o osod cyllideb y CBC wedi bod yn mynd rhagddi er mwyn gosod y gyllideb gyffredinol ar gyfer 2026/27, gan gynnwys y cyllid sydd ei angen ym mlwyddyn 1 o Raglen Gyflawni'r SDP i ddechrau'r cynllun. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr cyllid i sicrhau bod dymuniadau'r Aelod mewn perthynas â phwysau cyllidebol yn cael eu hystyried yn y ffordd y mae'r SDP yn cael ei adnoddau. Mae disgwyl i gyllideb y CBC ar gyfer 2026/27 gael ei hadrodd i'r CBC ar 23 Ionawr 2026 ar gyfer ei chymeradwyo.

4.4. Felly, mae'r broses gyda'r Cynllun Datblygu Strategol wedi'i gohirio ers mis Medi i bob pwrpas, wrth i ni aros am osod a chymeradwyo'r gyllideb, gan mai dyna'r sicrwydd roedd yr Aelodau eisiau ei gael cyn cyflwyno'r cytundeb Cyflawni yn ffurfiol. O'r adroddiad sy'n cyflwyno'r gyllideb i'r cyfarfod hwn i'w gymeradwyo, bydd yr Aelodau'n gweld bod y cyllid sydd ei angen i gychwyn y cynllun wedi'i adnabod, a thrwy wneud hynny, mae hyn wedi osgoi unrhyw effaith ar ardoll yr Awdurdodau Lleol o'r SDP. Caiff hyn ei egluro'n fanylach yn yr adran ganlynol.

## 5. YSTYRIAETHAU

5.1. Fel y gŵyr yr Aelodau, amcangyfrifwyd bod y gost o gynhyrchu'r SDP yn £3.276m dros y broses bum mlynedd, neu £655,272 y flwyddyn ar gyfartaledd. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn amcangyfrif realistig, dylid hefyd edrych arno fel y senario gwaethaf, sy'n gadael rhywfaint o le ym mhob cylch o osod y gyllideb flynyddol i geisio cyflawni effeithlonrwydd ac arbedion. Dyma gyfanswm y costau i'r CBC, a'r CBC sydd â'r ddyletswydd o gynhyrchu'r SDP ac ariannu'r broses honno. Mae'r Aelodau wedi ystyried adroddiad penodol o'r blaen ar ariannu'r SDP (DOLEN) oedd yn cymharu'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2025/26 gyda'r cyllid a fyddai ei angen i dalu'r costau hyn, a olygai yn ei hanfod bod angen i gyllideb 2025/26 gynyddu tua 50%.

5.2. Ar ôl ystyried y gwariant refeniw sydd ei angen ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gynhyrchu'r SDP ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni, cynigiwyd cyllideb ar gyfer yr SDP ar gyfer 2026/27 sy'n dod i gyfanswm o £597,650. Darperir y dadansoddiad o hwn yn adroddiad y gyllideb sy'n ymddangos yn gynharach ar yr agenda hwn sy'n manylu ar y gwariant sydd ei angen a'r ffynonellau incwm a fydd yn cael eu defnyddio i dalu'r gwariant hwnnw (gweler y daflen crynodeb o'r gyllideb yn ***Atodiad 1***).

5.3. Mae prif elfennau'r gyllideb wedi'u llunio gan ofynion gwariant o: £253,290 i dalu cyflogau cyfredol a recriwtio arfaethedig yn ystod y flwyddyn; £292,490 sy'n darparu arian yn bennaf ar gyfer cymorth ymgynghori hanfodol ynghyd â swm i ariannu system swyddfa gefn ar gyfer yr SDP; ac yn olaf £50,960 sy'n darparu arian ar gyfer y gwahanol wasanaethau cymorth sydd eu hangen i gynorthwyo gyda chynhyrchu'r cynllun. Mae cyfanswm y gwariant o £597,650 yn is na'r costau cyfartalog blynyddol uchod ac mae'n enghraifft gynnar o gyllidebu ar gyfer y costau y mae angen i ni eu gwario, yn hytrach na dim ond cronni cyllideb. Er y gall y costau amrywio dros amser, bydd y rhain yn cael eu pennu ym mhob proses gosod cyllideb flynyddol, wedi'u harwain gan yr amcangyfrifon cost cyffredinol, y cam rydym wedi'i gyrraedd gyda'r cynllun, a ffynonellau incwm posibl eraill sydd ar gael ar yr adeg honno.

5.4. Un prif bryder i'r Aelodau pan gymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni ym mis Medi, oedd y gallu i osod cyllideb briodol ar gyfer yr SDP, heb i hyn gael effaith sylweddol ar Gyllidebau'r Awdurdodau Lleol. Fe wnaeth Aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ategu'r pryder hwn hefyd. Mae dau beth i'r Aelodau eu nodi o'r crynodeb cyllideb yn atodiad 1 mewn perthynas â hyn. Yn gyntaf, y cyfraniad cronnol at dalu'r gwariant arfaethedig o ardoll yr Awdurdodau Lleol yw £388,170. Mae hyn yn parhau i fod yn agos iawn at y swm ardoll sy'n ofynnol yng nghyllideb 2025/26 (£375,040) sy'n cynrychioli gwahaniaeth o ddim ond £13,130, neu 2.2% o'r gyllideb gwariant gyffredinol ar gyfer 2026/27.

5.5. Ffactor lliniarol pwysig sydd wedi helpu i gyfyngu'n sylweddol ar yr effaith ar Awdurdodau Lleol yw'r cyllid wrth gefn sydd wedi'i adnabod i'w ddefnyddio yn y gyllideb (£209,480). Mae hyn wedi dod o gyfuniad o danwariant ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn yn 2025/26, a Llywodraeth Cymru yn rhoi grant perfformiad o £200,000 i'r CBC am y cynnydd y mae wedi'i wneud. Mae'r cyfuniad o'r rhain hefyd yn gadael arian wrth gefn pellach y gellir ei ystyried fel rhan o osod y gyllideb ar gyfer blwyddyn 2 yr SDP yn 2027/28.

5.6. Felly, mae'r CBC wedi cyrraedd y pwynt lle, yn gyntaf, mae eisoes wedi cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ac yn ail, wedi gosod cyllideb realistig ar gyfer blwyddyn 1 rhaglen yr SDP sy'n ddigonol i dalu'r costau cynhyrchu. Mae'r sefyllfa a gyrhaeddwyd gyda'r gyllideb o ran yr effaith gyfyngedig iawn ar ardoll yr Awdurdodau Lleol yn gyflawniad sylweddol, gan roi'r sicrwydd roedd yr Aelodau yn chwilio amdano, a'r potensial i ailadrodd hyn fel rhan o'r ymarfer gosod cyllideb ar gyfer 2027/28, o leiaf. Er nad yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i chytuno eto ar gyfer y CBC, ystyrir mai'r sefyllfa hon yw'r gorau y gellir ei chyflawni ar gyfer y flwyddyn nesaf (a'r flwyddyn wedyn), ac felly'r sicrwydd sydd ei angen i ymrwymo i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP yn ffurfiol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

## 6. CAMAU NESAF

6.1. Felly, gofynnir i'r Aelodau gytuno i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliad 11(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

6.2. Gan gymryd bod yr Aelodau'n cytuno, bydd y Cytundeb Cyflawni yn cael ei gwblhau'n derfynol ar ôl y cyfarfod hwn a'i gyflwyno cyn gynted â phosibl. Unwaith y bydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, deallir y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at y CBC o fewn pedair wythnos ar ôl ei dderbyn i nodi ei fod yn derbyn y Cytundeb Cyflawni, a bydd hynny'n nodi dechrau'r gwaith ar y cynllun yn ffurfiol. Os oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y Cytundeb Cyflawni, mae mwy na digon o amser i fynd i'r afael â'r rhain, sicrhau swm llawn y grant perfformiad, a chynnal cynnydd yn erbyn amserlen yr SDP.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllideb arfaethedig CBC y Gogledd ar gyfer 2026/27 gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau cymorth ariannol pellach gan Lywodraeth Cymru wrth i'r SDP symud ymlaen, ac adnabod effeithlonrwydd ac arbedion posibl wrth osod cyllidebau blynyddol yn y dyfodol.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cyllideb Gryno Uchelgais Gogledd Cymru 2026/27

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae yna gyfres o benderfyniadau allweddol sy'n arwain yn y pen draw at fabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol. Er ei bod yn ddogfen dechnegol mewn sawl ffordd, mae cymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn benderfyniad arwyddocaol. Mae'n nodi'r broses arfaethedig ac ymrwymiad y CBC i gyflawni'r cynllun. Mae'r argymhelliad yn tynnu sylw at y mater o ariannu'r broses Gynllun a'r angen i'r CBC sicrhau datrys y mater hwn fel rhagamod ar gyfer cyflwyno'r Cytundeb i Lywodraeth Cymru."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni yn gam allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol.

Gallaf gadarnhau bod yr wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn yn gyson â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2026/27. Yn amodol ar gymeradwyaeth y gyllideb gan y Cyd Bwyllgor Corfforedig, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniadau a geisir."

**Cyllideb Refeniw 2026/27 Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru** **Atodiad 1**

| | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Parth Buddsoddi | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Gweithwyr** | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 253,280 | 116,890 | 0 | 495,550 | 865,720 |
| Capasiti ychwanegol y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 | 0 | 0 | 16,230 | 81,110 | 97,340 |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 0 | 2,090 | 2,090 |
| Hyfforddiant | 0 | 0 | 0 | 6,000 | 6,000 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 2,000 |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **253,280** | **116,890** | **16,230** | **586,750** | **973,150** |
| **Teithio** | | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 920 | 400 | 0 | 1,790 | 3,110 |
| **Cyfanswm Teithio** | **920** | **400** | **0** | **1,790** | **3,110** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | | |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 16,070 | 16,070 |
| Offer a chyfarpar | 3,390 | 1,450 | 0 | 6,540 | 11,380 |
| Cyflenwadau amrywiol | 920 | 400 | 0 | 1,780 | 3,100 |
| Marchnata | 0 | 0 | 0 | 10,000 | 10,000 |
| Costau banc | 0 | 0 | 0 | 1,720 | 1,720 |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 960 | 1,200 | 0 | 2,880 | 5,040 |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 0 | 41,480 | 41,480 |
| Ymgynghorwyr allanol | 250,000 | 100,000 | 0 | 10,560 | 360,560 |
| Yswiriant | 2,280 | 1,060 | 0 | 4,530 | 7,870 |
| Systemau | 34,940 | 6,170 | 0 | 14,800 | 55,910 |
| Prosiectau | 0 | 0 | 0 | 141,500 | 141,500 |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **292,490** | **110,280** | **0** | **251,860** | **654,630** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid (yn cynnwys Swyddog Adran 151) | 12,090 | 11,330 | 0 | 49,080 | 72,500 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 10,980 | 10,980 | 34,140 | 47,600 | 103,700 |
| Cefnogaeth Democratiaeth | 14,720 | 18,390 | 0 | 44,140 | 77,250 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 7,920 | 8,610 | 0 | 19,750 | 36,280 |
| Technoleg Gwybodaeth | 5,250 | 2,250 | 0 | 10,130 | 17,630 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **50,960** | **51,560** | **34,140** | **170,700** | **307,360** |
| **Costau sefydlu** | | | | | |
| Cyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 13,390 | 13,390 |
| Ymgynghorwyr Allanol | 0 | 0 | 0 | 58,500 | 58,500 |
| Parth Buddsoddi | 0 | 0 | 149,630 | 0 | 149,630 |
| **Cyfanswm Costau sefydlu** | **0** | **0** | **149,630** | **71,890** | **221,520** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant** | **597,650** | **279,130** | **200,000** | **1,082,990** | **2,159,770** |
| **Llywodraeth Cymru - Grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol** | 0 | (100,000) | 0 | 0 | **(100,000)** |
| **Llywodraeth Cymru - Grant CBC** | 0 | 0 | 0 | (200,000) | **(200,000)** |
| **Parth Buddsoddi** | 0 | 0 | (200,000) | 0 | **(200,000)** |
| **Llog ar falansau** | 0 | 0 | 0 | (20,000) | **(20,000)** |
| **Cyfraniad o gronfa** | (209,480) | 0 | 0 | (415,110) | **(624,590)** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net** | **388,170** | **179,130** | **0** | **447,880** | **1,015,180** |

| | Cynllunio Strategol | Swyddogaethau eraill | Cyfanswm Ardoll | Ardoll 2025/26 | (Cynnydd) / Gostyngiad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid drwy ardoll** | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (61,450) | (103,330) | (164,780) | (146,820) | (17,960) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (54,690) | (88,350) | (143,040) | (126,710) | (16,330) |
| Cyngor Sir y Fflint | (86,790) | (140,200) | (226,990) | (203,270) | (23,720) |
| Cyngor Gwynedd | (56,130) | (108,660) | (164,790) | (144,690) | (20,100) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (38,480) | (62,130) | (100,610) | (90,340) | (10,270) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (76,970) | (124,340) | (201,310) | (177,520) | (23,790) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) | (13,660) | | (13,660) | (13,130) | (530) |
| **Cyfanswm Cyllideb Incwm** | **(388,170)** | **(627,010)** | **(1,015,180)** | **(902,480)** | **(112,700)** |

| | | |
|---|---|---|
| ***Poblogaeth perthnasol*** | | |
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* | *110,381* | *114,891* |
| *Cyngor Sir Ddinbych* | *98,202* | *98,202* |
| *Cyngor Sir y Fflint* | *155,867* | *155,867* |
| *Cyngor Gwynedd* | *100,787* | *120,813* |
| *Cyngor Sir Ynys Môn* | *69,097* | *69,097* |
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam* | *138,245* | *138,245* |
| *Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)* | *24,536* | |
| ***Cyfanswm poblogaeth*** | ***697,115*** | ***697,115*** |

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

23 Ionawr 2026.

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cronfa Partneriaeth Arloesi Gogledd Cymru<br>- Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru |
| AWDURON: | Alwen Williams, Prif Weithredwr<br>Iain Taylor, AMION Consulting |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Crynhoi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar gynnig Cronfa Partneriaeth Arloesi Gogledd Cymru a cheisio cymeradwyaeth i gyflwyno 'Mynegiant o Barodrwydd' a Cylch Gorchwyl ar gyfer Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru newydd.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel ***Atodiad 1***.
- Cyflwyno Mynegiant o Barodrwydd ar gyfer cynnig Cronfa Partneriaeth Arloesi Lleol Gogledd Cymru.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

### 3.1. Cefndir

3.1.1 Ym mis Gorffennaf 2025, penderfynodd y CBC groesawu cynigion ar gyfer Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru. Ers yr amser hwn, mae rhanddeiliaid 'Gweithgor y Bwrdd Arloesi' wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ar gwmpas a rôl Bwrdd o'r fath. Roedd llawer o'r drafodaeth gychwynnol yn ystyried sut y gallai bwrdd â ffocws ddod ag arbenigedd ac arweiniad ar themâu arloesi i gefnogi cyflawni'r Parth Buddsoddi yn debyg i'r ffordd y mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cefnogi Strategaeth Sgiliau'r Parth Buddsoddi.

3.1.2 Mae'r cyfle am fwrdd arloesi rhanbarthol wedi datblygu'n sylweddol ers cyhoeddiad y Llywodraeth am y Gronfa Partneriaeth Arloesi Leol.

### 3.2. Cronfa Partneriaeth Arloesi Leol

3.2.1 Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i weinyddu £500m ar gyfer rhaglen o Bartneriaethau Arloesi Lleol ledled y DU. Mae rhai rhanbarthau, gan gynnwys Prifddinas Ranbarth Caerdydd, wedi cael £30m wedi'i glustnodi iddynt, tra bod rhanbarthau eraill, gan gynnwys Gogledd Cymru, yn cael eu gwahodd i ystyried proses gystadleuol i sicrhau £20m o gyllid refeniw a chyfalaf. Mae'r rhaglen Partneriaeth Arloesi Leol yn rhaglen 5 mlynedd sydd â'r bwriad o gefnogi arloesedd ar draws diwydiant, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus (yr helics triphlyg).

3.2.2 Mae ffocws thematig y cynnig yn esblygu ond mae'n debygol y bydd yn canolbwyntio ar y cyfleoedd 'Gweithgynhyrchu Cynaliadwy' i fusnesau ledled y Gogledd ymateb i'r cyfleoedd buddsoddi mawr gan gynnwys Porthladd Rhydd Môn, Parth Twf Deallusrwydd Artiffisial, Rhaglen SMR Wylfa, Rhaglen Ynni ar y Môr, Cynllun Twf Gogledd Cymru a Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

3.2.3 Os caiff ei gymeradwyo, disgwylir y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cyflwyno'r 'Mynegiant o Barodrwydd' i UK Research and Innovation erbyn y dyddiad cau ar 12th Chwefror, 2026. Bydd rhagor o fanylion am y cynnig yn dod yn ôl i'r CBC os bydd UKRI yn gwahodd y rhanbarth i baratoi cynnig.

3.2.4 Mae bwriad clir gan y partneriaid, y bydd buddsoddi a chyflawni yn digwydd yn lleol ac ar draws y Gogledd ac yn ategu'r trefniadau cyllido presennol.

**4. YSTYRIAETHAU ARIANNOL**

4.1. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cefnogi'n ariannol ddatblygu'r Gronfa Partneriaeth Arloesi Leol a chynigion ar gyfer Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru.

4.2. Bydd yr ystyriaethau ariannol sy'n ymwneud â'r Bwrdd Arloesi yn cael eu pennu gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd cynnar i benderfynu ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r rhaglen. I ddechrau, bydd y Bwrdd yn cael ei gefnogi gan Uchelgais Gogledd Cymru o adnoddau o fewn rhaglenni presennol.

4.3. Bydd yr ystyriaethau ariannol sy'n ymwneud â chynnig y Gronfa Partneriaeth Arloesi Leol yn dod yn ôl i'r CBC unwaith y bydd UKRI wedi cadarnhau bod y Gogledd yn cael ei wahodd i gyflwyno cynnig ffurfiol. Byddai hyn yn cynnwys gweinyddu hyd at £20m dros 5 mlynedd gyda'r mwyafrif o'r arian yn cael ei ddosbarthu i bartneriaid ledled y Gogledd.

**5. YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL**

5.1. Bydd agweddau cyfreithiol y Gronfa Partneriaethau Arloesi Lleol, gan gynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth partneriaeth a chytundebau cyflawni a chyllido yn dod yn ôl i'r CBC yn y dyfodol unwaith y bydd wedi'i gadarnhau y bydd y Gogledd yn paratoi cynnig ffurfiol.

5.2. Mae'r Cylch Gorchwyl sydd ynghlwm yn nodi'r sail ar gyfer gweithredu'r Bwrdd Arloesi.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL

i. Swyddog Monitro

"Mae'r adroddiad hwn yn gam interim wrth greu'r Gronfa Bartneriaeth. Pan fydd manylion y cynnig yn cael ei ystyried am gymeradwyaeth gan y CBC, bydd angen manylder ac alinio'r strwythurau a'r swyddogaeth llywodraethu."

ii. Swyddog Cyllid Statudol

"Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisir o safbwynt ariannol. Nodaf o baragraff 4.3 y bydd yr ystyriaethau ariannol sy'n ymwneud â chynnig y Gronfa Partneriaeth Arloesi Leol yn dod yn ôl i'r CBC unwaith y bydd UKRI wedi cadarnhau bod Gogledd Cymru yn cael ei wahodd i gyflwyno cynnig ffurfiol."

Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru

Cylch Gorchwyl

Ionawr 2026

| | |
|---|---|
| 1. Awdurdod/<br>2. Cyfansoddiad | Uchelgais Gogledd Cymru, y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC), yw'r corff atebol ar gyfer Bwrdd Parth Arloesi Gogledd Cymru (ac unrhyw raglenni neu brosiectau y gwahoddir ef i'w rheoli) a bydd yn dirprwyo cyfrifoldebau corff atebol i'w Is-bwyllgor Lles Economaidd. |
| 3. Atebolrwydd | Mae Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru, drwy ei Gadeirydd, yn gyfrifol i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i Is-bwyllgor Lles Economaidd.<br>Bydd y Cadeirydd yn cysylltu â phartneriaid allweddol i'r Bwrdd Arloesi. Bydd adroddiadau ar gynnydd yn cael eu darparu gan Gadeirydd y Bwrdd Arloesi i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd a phartneriaid eraill fel y bo'n briodol. |
| 4. Swyddogaethau a chyfrifoldebau | Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru fel a ganlyn:<br>• Argymell y Cylch Gorchwyl hyn i'r CBC<br>• Sefydlu KPIs<br>• Adnabod templed adrodd ac adrodd i'r CBC / Is-bwyllgor Lles Economaidd<br>• Bwrw ymlaen â chynigion y Gronfa Partneriaeth Arloesi<br>• Cefnogi cyflawni arloesedd Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam<br>• Cefnogi cyflawni arloesedd Porthladd Rhydd Ynys Môn<br>• Cynghori ar brosiectau arloesi a gyflwynwyd i Gynllun Twf Gogledd Cymru |
| 5. Aelodaeth | Bydd Aelodaeth Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru yn cael ei dynnu o gynrychiolwyr o'r sefydliadau a ganlyn.<br>• Cadeirydd, wedi'i recriwtio o'r Diwydiant/Byd Academaidd<br>• Prifysgolion (Prifysgol Bangor a Phrifysgol Wrecsam)<br>• Addysg Bellach (Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria)<br>• M-Sparc<br>• AMRC Cymru<br>• Catapwlt Ynni Ar y Môr ac Adnewyddadwy<br>• BIC Innovation<br>• Diwydiant (Haen 1)<br>• Diwydiant (BBaChau)<br>• Cyrff Cyhoeddus (UKRI, Arloesi Cymru, UGC)<br>• Sefydliadau eraill a arweinir gan Arloesedd a wahoddir<br>Ystyrir bod gan y Bwrdd Arloesi gworwm pan fydd o leiaf 5 aelod yn bresennol yn y cyfarfod.<br>Disgwylir i aelodau'r Bwrdd Arloesi fynychu o leiaf 75% o'r holl gyfarfodydd a dylent anelu at fynychu pob cyfarfod. Bydd presenoldeb yn cael ei gofnodi a'i fonitro. Os nad yw aelod yn gallu mynychu, gall yr aelod gynnig, yn ddelfrydol dri diwrnod neu fwy cyn y cyfarfod, i ddirprwy fynychu gyda chytundeb y Cadeirydd ar ran y Bwrdd Arloesi. Diben y dull hwn yw cynnal cydlyniad y |

| | |
|---|---|
| | Bwrdd Arloesi. Rhaid i unrhyw ddirprwy a gynigir fod yn unigolyn sy'n gwbl gymwys, yn ymwybodol ac wedi ei hysbysu o'r materion i'w trafod yn y cyfarfod, fel ei fod yn gallu rhoi mewnbwn llawn drwy ddarparu'r arbenigedd angenrheidiol i drafod materion allweddol.<br>Disgwylir i'r Aelodau fod o statws ac enw da yn eu priod sectorau a'u bod yn ymddwyn gan ystyried statws ac enw da Uchelgais Gogledd Cymru a'i phartneriaid. |
| 6. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad | Wrth gynnal ei fusnes, bydd y Bwrdd Arloesi bob amser yn ceisio hyrwyddo ei ymrwymiad i'r Gymraeg ac i gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy greu amgylchedd sy'n gynhwysol i'w aelodau a'i bartneriaid gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ac aelodau bregus o'n cymuned. |
| 7. Cyfathrebu | Bydd y Bwrdd Arloesi yn cael ei gefnogi gan UGC ac yn cyfarfod bob chwarter mewn fformat hybrid mewn lleoliadau ledled y Gogledd.<br>Bydd arddull cyfathrebu agored yn cael ei fabwysiadu ar faterion Bwrdd Arloesi rhwng ac ar ran partneriaid. |
| 8. Gweinyddu'r cyfarfodydd ac adrodd iddynt | Bydd swyddog y CBC yn gweithredu fel ysgrifennydd i'r Bwrdd Arloesi a bydd yn darparu cymorth priodol i'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd Arloesi.<br>Bydd rhaglenni a phapurau'n cael eu cyflwyno o leiaf 5 diwrnod busnes llawn cyn cyfarfod.<br>Bydd cofnod ffurfiol o holl gyfarfodydd y Bwrdd Arloesi'n cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd. Bydd unrhyw adborth gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Arloesi. |
| 9. Gwrthdaro buddiannau | Bydd yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd Arloesi ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau wrth iddynt godi.<br>Bydd gofyn iddynt gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, fel y'u lluniwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a elwir yn fwy cyffredin yn Egwyddorion Nolan.<br>Gan sicrhau dull cytbwys, bydd gwrthdaro buddiannau yn cael ei reoli yn unol â Pholisi Gwrthdaro Buddiannau'r CBC ar gyfer Cyrff Ymgynghorol.<br>Bydd angen Datganiadau Gwrthdaro Buddiannau ar ddechrau rhaglen pob cyfarfod. Bydd holl gofnodion a phapurau cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi felly bydd unrhyw Wrthdaro Buddiannau yn dryloyw yn gyhoeddus. |
| 10. Adolygu | Bydd Cylch Gorchwyl Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru yn cael ei adolygu'n flynyddol. |